# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod Brys 06/01/2026

Presennol: Heulwen Parry, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Elfed Roberts ,

1. Ymddiheuriadau: Rebecca Phasey, Meredydd Williams

2a. Datgan Diddordeb: Heulwen Parry i daliadau Owain Aeron

4. Materion i'w trafod:

4. 290 Ymateb i bwynt 1 a 2:

Cysylltu a Geraint Lewis Associates, Dolgellau. i ofyn beth yw y costau sydd yn ddyledus hyd hyn, ac ei wahodd i gyfarfod nesaf y cyngor ar y 13eg Ionawr.

4.291 Pwynt 3: Y Clerc wedi cysylltu efo'r pensaer Don Westley i gael dyfynbris am wneud cynllun er mwyn hwyluso mynediad i alarwyr i fynwent Maentwrog ond heb gael ymateb. Cytunwyd i'r Clerc holi am ddyfynbris gan un/ddau gwmni arall - Vaughan Heaney / Dobson Owen.

4.292 Pwynt 4. Ymateb i gŵyn swyddogol y cynghorydd Meredydd Williams. (Gweler ebyst perthnasol gan Meredydd Williams, Heulwen Parry, Elfed Roberts, Eurwyn Jones, Rebecca Phasey yn **Atodiad A)**

4.293 Derbyniwyd ymddiheuriad Elfed Roberts am beidio cael amcanbris am ddarpar gynlluniau mynediad hwylus i fynwent Maentwrog er mwyn cael dechrau'r broses.

5. Ariannol

Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

Cyfrif Cyffredol

5.223 Owain Aeron: Llwybrau - £758.00

5.224 Owain Aeron: Torri Gwair - £600.00

5.225 Designer Signs: gosod hysbysfwrdd y Neuadd: £108.00

5.226 Ifan Williams: gwaith ffensio - £3020.00

Cyfrif y Fynwent

5.227 Martin Kerr - £480.00 agor bedd

Cyfarfod nesaf y cyngor: 13eg o Ionawr am 6 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan.

HP 13/01/26

## ATODIAD A

Cwyn wedi dderbyn gan Meredydd Williams 07/12/2025

Dwi yn gyrry'r ebost yma gyda phryder ynglyn a beth sydd yn mynd ymlaen gyda cael amcanbris am wneud cynllun y fynwent, mae'r ail gynllun sydd wedi ei wneud, i mi i weld yn ddi-bwrpas oherwydd y gwalliau sydd ynddo a teimlaf fod hyn yn annerbyniol ble mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio

Oherwydd hyn, rwyf yn rhoid cwyn swyddogol i mewn i'r Cadeirydd a Clerc y Cyngor oherwydd nad oes gennym gynghorydd wedi ei benodi i dderbyn cwynion

Dwi yn gofyn am eglurhad o sut mae hyn wedi digwydd

Pam bod beth a baswyd yn y cofnodion ddim wedi cael eu weithredu ynglyn a chael amcanbris gyntaf cyn gwneud y gwaith ?

A fuodd na drafodaeth o fewn y Cyngor ynglyn a chael amcanbris cyn gwneud y gwaith ?

Ydi'r amcanbris a dderbynwyd yn uwch na'r ffigwr penodwyd gan y Cyngor o fod angen cael dau amcanbris ?

Pryd a sut cafodd Geraint Lewis ei benodi i wneud y gwaith (a ddim yr amcanbris) ?

Dwi ddim yn deall sut y medrwn fel Cyngor, sy'n atebol i'r cyhoedd a'r archwilwyr, symud ymlaen hefo hyn

Ymateb y cynghorwyr i gwyn Mr Williams

Ymateb Heulwen Parry 12/12/2025

*Credaf ei bod yn ddyletswydd arnaf fel cadeirydd y Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb am y cam weithredu sydd wedi digwydd wrth gael cynlluniau ar gyfer maes parcio ym mynwent Maentwrog.*
*Mae'r gŵyn yn gywir gan Meredydd nad ydym wedi cadw at y penderfyniad basiwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor i ofyn am amcan bris am gynllun gan Geraint Lewis yn y lle cyntaf cyn penderfynu ei benodi i wneud y gwaith.*
*Rydym wedi cael dau gynllun drafft gan Geraint Lewis ac ni wnes i na neb arall nodi nad oedden ni wedi cytuno iddo wneud y gwaith tan i Meredydd roi cŵyn swyddogol wythnos diwethaf am ein cam weithredu.*
*Dwi'n ymddiheuro am y blerwch yma o'm rhan i, ond yn pwysleisio na wnaed dim yn fwriadol o'i le. Dwi'n cytuno efo'r gŵyn wnaed gan Meredydd ei bod yn rheidrwydd arnom weithredu bob amser yn gywir fel rydym wedi cytuno yng ngyfarfodydd y Cyngor.*
*Mae'r gŵyn swyddogol yma yn ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb ni i gyd fel Cynghorwyr i weithredu yn unol â'r hyn sy'n cael ei basio mewn cyfarfodydd o'r Cyngor ac sydd hefyd yn y cofnodion.*
*Rhaid cofio hefyd bwysigrwydd cydweithredu fel cynghorwyr er budd y gymuned rydym yn*

*gweithio ynddi.*
*Gobeithio y gallwn symud ymlaen a chyd weithio i gael cynllun taclus yn ei le fel bod maes parcio a ffordd hwylus i alarwyr yn y dyfodol agos. Mae blynyddoedd yn mynd heibio a'r oedi yn ddifyg ar ein rhan.*
*Mae angen cyfle i bawb roi eu eu barn am y cynllun drafft rydym wedi ei dderbyn, am yr amcan bris ac i bendefynu os ydym yn penodi Geraint Lewis i wneud y gwaith.*
*Gan ei bod mor agos at y Nadolig, bydd yn well trefnu dyddiad yn y flwyddyn newydd i gael cyfarfod i benderfynu'r cam nesa ymlaen.*

Ymateb Elfed Roberts 21/12/2025 i'r cadeirydd

*Ddim yn siwr sut i ymateb i hyn , yn amlwg mai cwyn wedi anelu tuag ataf fi yn bersonol iw hyn , teimlaf bod dim bwriad i wneud dim oi le wedi ei wneud ar fy rhan i ,dim ond dechra y broses. Sawl gwaith mae cynrychiolydd or cyngor wedi mynd a trafod projectau ar ein rhan dros y blynyddoedd ! ,wedi'r cyfan trio datrys mynediad i gerbydau angladd ac yr anabl gael mynediad ir mynwent iw y bwriad sydd ar y gweill ers blynyddoedd bellach . Dim ond cynlluniau draft or safle sydd wedi ei paratoi ,fydd angen llawer mwy o gig ar yr asgwrn pan gawn gyfarfod a Geraint Lewis wyneb yn wyneb cyn gwneud ryn penderfyniad i yrru mlaen a gwario pres cyhoeddus . mae pwysau hollol annheg wedi ei roi ar Heulwen y Cadeirydd a gweddill y cyngor ynglŷn ar mater yma , Elfed*

Ymateb Eurwyn Jones 21/12/2025

*Cytuno efo Heulwen fod camgymeriadau wedi eu gwneud, ond mae'r cyfrifoldeb yn disgyn arnom i gyd, ddim mond hi. Dydi y planiau ddim yn hollol gywir, felly y cam nesaf fydd penderfynu os ydym yn cadw Gareth Lewis i wneud y cynllun a derbyn y dyfynbris neu ddim. Mae'r prosiect yma ar y gweill ers cyn i mi ymuno a'r cyngor ugain mlynedd yn ol, felly rhaid i ni drio ffeindio ffordd ymlaen i gael gwneud y gwaith, gobeithio gallwn gytuno gwneud hynny yn y cyfarfod nesaf.*

Ebost ychwanegol gan Meredydd Williams 27/12/2025

Yn dilyn y diffyg ymateb i'r cwestiyna ofynwyd 7fed Ragfyr mewn ebost (heblaw am ymateb gan Eurwyn)

Dwi wedi cysylltu hefo twrna'r Cyngor Sir a wedi cael ymateb ar lafar fod hawl genai fel Cynghorydd i ofyn y cwestynau yma

Ymateb Rebecca Phasey 06/01/2026

*Dwi yn meddwl bod hi'n bechod i gwyn gael ei wneud ac i Heulwen deimlo ei bod angen cymryd cyfrifoldeb, sydd yn anheg. Dwi'n ffyddlon na chafodd unrhyw weithred ei wneud yn bwrpasol er mwyn camddefnyddio arian gyhoeddus nag i gam arwain y cyngor. Os oes camgymeriad yn sut mae'r prosiect wedi cael ei weithredu, mater o'i drafod yn deg cyn symud ymlaen a chadarnhau beth yw'r camau nesaf, yw fy marn i. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd na ellir ei gywiro.*

*Dwi'n cymryd y bydd Geraint Lewis yn deall os oes angen i ni gymryd cam yn ôl ac ystyried*

HP 13/01/26

*dyfynbrisiau eraill neu os oes angen newidiadau a chywiriadau i'r cynlluniau y mae eisoes wedi'u cyflwyno. Nid ydym wedi ymrwymo mewn contract gyda fo i wneud y gwaith felly mae popeth dal yn agored, hyd y gwela i? A dim rheswm i beidio cael trafodaeth adeiladol fydd yn dod a datrysiad a chamau clir ymlaen.*

HP 13/01/26